

Ceidwad Cyfrifon, Corff Llywodraethu Cenedlaethol Saethu Targedau

Mae Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru (WTSF) yn cynrychioli pum cymdeithas saethu targedau ar lefel genedlaethol o ran llywodraethu, ariannu a chystadlaethau rhyngwladol mawr. Y pum aelod-gymdeithas yw; [Cymdeithas Saethu Targed Clai Cymru](#), [Cymdeithas Gynnu Awyr Cymru](#), [Cymdeithas Reifflau Cymru](#), [Cymdeithas Reifflau Calibr Bychan Cymru](#), [Cymdeithas Targedau Maes Gynnu Awyr Cymru](#).

Mae WTSF yn cynrychioli buddiannau'r cymdeithasau hyn a'u haelodau yn Chwaraeon Cymru, Tîm Cymru, Llywodraeth Cymru, British Shooting a chyrff eraill. Mae WTSF hefyd yn dethol, yn hyfforddi ac yn cefnogi saethwyr o Gymru i gystadlu ar lwyfan byd-eang yng Ngemau'r Gymanwlad, ac yn adeiladu ar eu perfformiad gorau erioed yng Ngemau'r Arfordir Aur yn 2018.

Mae WTSF yn lansio strategaeth newydd gyffrous yn 2020 sy'n cynnwys y weledigaeth i feithrin rhwydwaith saethu targedau ffyniannus yng Nghymru. Mae WTSF yn chwilio am geidwad cyfrifon i reoli materion ariannol dyddiol sy'n cefnogi cyflawni'r cynllun strategol newydd. Nid oes angen i ymgeiswyr feddu ar brofiad yn y maes saethu targedau ond rhaid bod ganddynt ddiddordeb mewn datblygu'r gamp drwy gyfrannu eu sgiliau busnes proffesiynol a safbwyntiau newydd er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd a gwelliannau o ran cynhyrchiant.

Mae WTSF yn sefydliad cyfle cyfartal balch, ac yn croesawu ymgeiswyr benywaidd, ymgeiswyr anabl a phobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn arbennig er mwyn gwella ymhellach amrywiaeth y syniadau mewn trafodaethau ac wrth wneud penderfyniadau. Yn yr un modd, mae WTSF yn awyddus i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, felly anogir ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae swyddfeydd WTSF wedi'u lleoli yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru sy'n hygyrch i'r anabl, ac mae WTSF yn ymrwymedig i wneud addasiadau sy'n hwyluso cyfweiliadau a chyflogaeth.

Sut i Wneud Cais

Mae Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn ymrwymedig i recriwtio staff amrywiol yn seiliedig ar sgiliau, ac mae'n annog ceisiadau gan bobl o grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd megis pobl anabl, BAME a menywod.

- Cyflwynwch CV cyfoes a llythyr eglurhaol yn esbonio sut rydych yn bodloni'r Meini Prawf Hanfodol a Dymunol a nodir yn y Fanyleb Person. E-bostiwch y rhain i mike.gross@wtsf.org.uk neu dychwelwch i'r cyfeiriad isod.
- Ar ôl cyflwyno eich cais i'r Cadeirydd, cwblhewch Ffurflen Monitro Cydraddoldeb [ar-lein](#) neu [all-lein](#) a'i dychwelyd at mike.gross@wtsf.org.uk neu drwy'r post at: Mike Gross, Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru, Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, CF11 9SW.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 23 Gorffennaf 2020.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Disgwylir i gyfweiliadau gael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 3 Awst 2020.
- Noder: mae'n annhebygol y cewch eich gwahodd i gyfweiliad os nad ydych yn bodloni'r holl Feini Prawf Hanfodol yn y Fanyleb Person.
- Mae Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn cadw'r hawl i gau'r broses ymgeisio yn gynnar os ceir llawer o geisiadau. Rydym felly yn cynghori ymgeiswyr posibl i gyflwyno'u manylion (gweler Sut i wneud Cais) cyn gynted â phosibl.
- Bydd Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn ceisio ymateb i bob cais yn unigol, fodd bynnag nid yw hyn yn bosibl bob tro.
- Os hoffech drafod y rôl cyn gwneud cais, cysylltwch â'r Rheolwr Llywodraethu a Gweithrediadau trwy e-bost (mike.gross@wtsf.org.uk).

Disgrifiad o'r Rôl

Teitl: Ceidwad cyfrifon

Patrwm Gweithio: 8 awr yr wythnos (20% CALI), trefniant gweithio hyblyg rhan-amser parhaol.

Cyflog: £11 yr awr, £22,880 (CALI)

Buddion eraill: Parcio ar y safle, cyllideb hyfforddi, tâl gwyliau, cyfarpar cyfrifiadurol, mynediad at gyfleusterau campfa Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

Lleoliad: Trefniant gweithio hyblyg o gartref ac yn swyddfa WTFSF yng Nghaerdydd. Dylai ymgeiswyr fod yn barod i deithio i Gaerdydd a meddu ar y gallu i wneud hynny o leiaf unwaith bob tair wythnos.

Crynodeb o'r Rôl

- Rheoli cyllid beunyddiol treuliau ac anfonebu WTFSF.
- Cynhyrchu adroddiadau ar gyfer goruchwyliaeth ariannol a chyd-drafod â'r Cyfarwyddwr Ariannol er mwyn adrodd i fwrdd WTFSF a phartneriaid cyllido allanol.
- Cynnig awgrymiadau ar gyfer arbedion o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant.
- Gweithredu yn unol â gwerthoedd, rhwymedigaethau ac ymrwymadau'r sefydliad.

Cyfrifoldebau

- Cynnal systemau ffeilio electronig cywir ar gyfer yr holl gofnodion cyfrifyddu gan ddefnyddio QuickBooks.
- Rheoli treuliau cwmni o ddydd i ddydd gan gynnwys anfonebu.
- Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer materion cyllid i bobl fewnol ac allanol megis cyflenwyr, staff, ymgynghorwyr a phartneriaid.
- Cynhyrchu adroddiadau gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gyfer bwrdd a phartneriaid cyllido WTFSF.
- Cyd-drafod â chyfrifwyr y cwmni, Cyllid a Thollau EM, a Thŷ'r Cwmnïau yn ôl yr angen.
- Cyfrannu at asesiadau risg ariannol a gweithredu gweithdrefnau lliniaru.

- Sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion llywodraethu ariannol a chynnal perthnasoedd agos gyda phartneriaid cyllido.
- Cyfrannu at gynlluniau strategol a gweithrediadau'r ffederasiwn i gyflawni amcanion hirdymor.
- Cyfrannu at uniondeb cyfreithiol ac ariannol y ffederasiwn, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.
- Sefydlu, meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol ag aelodau o'r bwrdd a staff WTSE.

Noder: mae'r disgrifiad uchod yn ystyried cyfrifoldebau craidd ac arferol y rôl bresennol, ond gall rhai anghenion ychwanegol godi wrth i'r rôl a'r cwmni ddatblygu.

Sut i Wneud Cais

Mae Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn ymrwymedig i recriwtio staff amrywiol yn seiliedig ar sgiliau, ac mae'n annog ceisiadau gan bobl o grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd megis pobl anabl, BAME a menywod.

- Cyflwynwch CV cyfoes a llythyr eglurhaol yn esbonio sut rydych yn bodloni'r Meini Prawf Hanfodol a Dymunol a nodir yn y Fanyleb Person. E-bostiwch y rhain i mike.gross@wtsf.org.uk neu dychwelwch i'r cyfeiriad isod.
- Ar ôl cyflwyno eich cais i'r Cadeirydd, cwblhewch Ffurflen Monitro Cydraddoldeb [ar-lein](#) neu [all-lein](#) a'i dychwelyd at mike.gross@wtsf.org.uk neu drwy'r post at: Mike Gross, Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru, Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, CF11 9SW.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 23 Gorffennaf 2020.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Disgwylir i gyfweiliadau gael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 3 Awst 2020.
- Noder: mae'n annhebygol y cewch eich gwahodd i gyfweiliad os nad ydych yn bodloni'r holl Feini Prawf Hanfodol yn y Fanyleb Person.
- Mae Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn cadw'r hawl i gau'r broses ymgeisio yn gynnar os ceir llawer o geisiadau. Rydym felly yn cynghori



FFEDERASIWN SAETHU
TARGEDAU CYMRU
WELSH TARGET
SHOOTING FEDERATION

ymgeiswyr posibl i gyflwyno'u manylion (gweler Sut i wneud Cais) cyn gynted â phosibl.

- Bydd Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn ceisio ymateb i bob cais yn unigol, fodd bynnag nid yw hyn yn bosibl bob tro.
- Os hoffech drafod y rôl cyn gwneud cais, cysylltwch â'r Rheolwr Llywodraethu a Gweithrediadau trwy e-bost (mike.gross@wtsf.org.uk).

Manyleb Person

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwybod sut mae chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn cyfrannu at gymdeithas ac iechyd a llesiant unigolion. Nid yw'n hanfodol bod gennych wybodaeth am saethu targedau ar gyfer y rôl, fodd bynnag mae'n rhaid bod gan ymgeiswyr ddiddordeb gwirioneddol mewn cefnogi a datblygu'r gamp.

Mae profiad blaenorol o gadw cyfrifon yn hanfodol gan fod WTSF angen rhywun sy'n gallu cydio yn yr awenau yn gyflym er mwyn diwallu anghenion y sefydliad. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn gyfforddus yn gweithio'n adeiladol a chydweithredol ag aelodau eraill o staff i wneud penderfyniadau er budd gorau WTSF.

Mae WTSF yn sefydliad cyfle cyfartal balch ac mae'n ceisio cynyddu amrywiaeth y syniadau mewn perthynas â'r broses gwneud penderfyniadau. Felly mae croeso ac anogaeth arbennig i fenywod, pobl ag anableddau, ac ymgeiswyr BAME.

	Hanfodol	Dymunol
Profiad o gadw cyfrifon	3 mlynedd o brofiad fel ceidwad cyfrifon neu mewn swydd debyg.	5 mlynedd neu fwy fel ceidwad cyfrifon cwmni.
Cymwysterau Cadw Cyfrifon	ACCA, ACIB Sylfaen Lefel 4 neu gymwysterau a phrofiad cyfatebol. (Isafswm cymwysterau ar gyfer Ceidwad Cyfrifon dan Hyfforddiant)	ACCA Uwch, ACIB Uwch neu gymwysterau a phrofiad cyfatebol.
Gwybodaeth Ariannol	Yn deall gofynion statudol, rheoliadol ac ymddiriedol cwmni cyfyngedig drwy warant.	Yn deall y rhwymedigaethau ariannol a'r perthnasoedd mewn Corff

	Yn gallu cyfrannu at asesiadau risg ariannol a gweithredu strategaethau lliniaru.	Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon.
Adroddiadau Ariannol	Yn gallu cynhyrchu a chyflwyno adroddiadau ariannol misol, chwarterol a blynyddol. Ymrwymiad i oruchwyliaeth cyllid misol gyda'r Cyfarwyddwr Ariannol.	Profiad blaenorol o fod yn Gyfarwyddwr Ariannol. Profiad blaenorol o oruchwyliaeth ariannol.
Sgiliau Meddalwedd Ariannol	Yn gyfarwydd â meddalwedd cyfrifo Quickbooks i reoli prosesau o ddydd i ddydd ar unwaith.	3 blynedd neu fwy o brofiad cadw cyfrifon gan ddefnyddio Quickbooks.
Sgiliau TG Cyffredinol	Yn gallu agor a chynhyrchu dogfennau yn Microsoft Word ac Excel. Yn gallu cyfathrebu drwy e-bost, dros y ffôn a thrwy fideo-gynadledda ar-lein.	Profiad blaenorol o gynhyrchu dogfennau a deunyddiau cyfathrebu digidol ar gyfer Corff Llywodraethu Cenedlaethol.
Cysylltiadau Proffesiynol	Yn deall pwysigrwydd cynnal cysylltiadau proffesiynol gyda phartneriaid mewnol ac allanol.	Profiad blaenorol o feithrin a chynnal perthnasoedd ariannol proffesiynol.
Mynychu Cyfarfodydd y Bwrdd	Ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd bwrdd WTSE a chyfrannu at adroddiadau ariannol i'r bwrdd. (cynhelir cyfarfodydd bob chwarter)	Profiad o gynhyrchu a chyflwyno adroddiadau ariannol i fwrdd cwmni.

Mynychu Cyfarfodydd Partneriaid	Ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd cyfnodol gyda'r adran gyllid a phartneriaid cyllido.	Profiad o oruchwyliaeth ariannol a chyfarfodydd adrodd yn y sector cyhoeddus.
Y Gymraeg		Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Sut i Wneud Cais

Mae Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn ymrwymedig i recriwtio staff amrywiol yn seiliedig ar sgiliau, ac mae'n annog ceisiadau gan bobl o grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd megis pobl anabl, BAME a menywod.

- Cyflwynwch CV cyfoes a llythyr eglurhaol yn esbonio sut rydych yn bodloni'r Meini Prawf Hanfodol a Dymunol a nodir yn y Fanyleb Person. E-bostiwch y rhain i mike.gross@wtsf.org.uk neu dychwelwch i'r cyfeiriad isod.
- Ar ôl cyflwyno eich cais i'r Cadeirydd, cwblhewch Ffurflen Monitro Cydraddoldeb [ar-lein](#) neu [all-lein](#) a'i dychwelyd at mike.gross@wtsf.org.uk neu drwy'r post at: Mike Gross, Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru, Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, CF11 9SW.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 23 Gorffennaf 2020.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Disgwylir i gyfweiliadau gael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 3 Awst 2020.
- Noder: mae'n annhebygol y cewch eich gwahodd i gyfweiliad os nad ydych yn bodloni'r holl Feini Prawf Hanfodol yn y Fanyleb Person.
- Mae Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn cadw'r hawl i gau'r broses ymgeisio yn gynnar os ceir llawer o geisiadau. Rydym felly yn cynghori ymgeiswyr posibl i gyflwyno'u manylion (gweler Sut i wneud Cais) cyn gynted â phosibl.
- Bydd Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru yn ceisio ymateb i bob cais yn unigol, fodd bynnag nid yw hyn yn bosibl bob tro.



FFEDERASIWN SAETHU
TARGEDAU CYMRU

WELSH TARGET
SHOOTING FEDERATION

- Os hoffech drafod y rôl cyn gwneud cais, cysylltwch â'r Rheolwr Llywodraethu a Gweithrediadau trwy e-bost (mike.gross@wtsf.org.uk).